**RHEOLWR GWEITHREDIADAU A DATBLYGU BUSNES**
**Y GWASANAETH CERDDORIAETH**
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976. Ar hyn o bryd mae'r Tîm Gweithredol (y Cyfarwyddwr Artistig – Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol – Liam Evans-Ford) yn creu'r newidiadau diwylliannol a gweithredol pwysicaf yn hanes y 42 o flynyddoedd ers i'r theatr fod yn gweithredu, cyfnod a fydd yn ailddiffinio ac yn diogelu dyfodol y ganolfan gelfyddydau unigryw a gwerthfawr hon – y theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw yng Nghymru.

Mae Theatr Clwyd yn cynhyrchu mwy nag wyth sioe y flwyddyn - yn y Saesneg yn bennaf, ond hefyd yn y Gymraeg - ac mae'n cyflwyno rhywfaint o'r gwaith hwn ar daith yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae ganddi raglen waith hynod lwyddiannus ar gyfer a gyda phobl ifanc sy'n cael ei chreu yn yr adeilad a'r tu allan iddo, a theithiau i ysgolion lleol, yng Nghymru a thu hwnt. Mae'r adeilad hefyd yn croesawu amrywiaeth o berfformiadau drama, dawns, cerddoriaeth a chelf teithiol ar gyfer pob oed, rhaglen gynhwysfawr o ffilmiau a rhaglen gymunedol brysur. Hefyd mae'r sefydliad ar flaen y gad gyda gwaith cysylltiedig â'r celfyddydau a lles. Yn ystod 2019, rydym wedi dod yn gyfrifol am weithredu Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir y Fflint a nawr rydym yn gyfrifol am 400,000 o sesiynau cerddorol y flwyddyn.

Rydym wedi gwneud datblygiadau mawr i newid siâp ein rhaglennu; rydym wedi ymrwymo i osod profiad yr ymwelydd wrth galon ein penderfyniadau; rydym wedi dechrau cynyddu ein digwyddiadau masnachol; rydym wedi cymryd y camau cyntaf tuag at ddyfnhau ein perthynas â'n cymuned; rydym wedi dechrau datblygu ein cynigion ategol ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed i farchnata ein gwaith a'n hadeilad yn fwy strategol ac effeithiol. Hefyd rydym wedi cyflwyno Dyluniad a Datblygiad a chais cynllunio ar gyfer ailddatblygiad mawr Theatr Clwyd sy'n cael ei gyllido gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Chyngor Sir y Fflint.

Theatr Clwyd yw'r unig theatr gynhyrchu yn y DU sy'n eiddo i awdurdod lleol o hyd. Gyda throsiant o £6.9m yn 2019/20, fe'i cefnogir gan Gyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir y Fflint a'i gweithgareddau ei hun. Cynhelir rhyw 2,115 o ddigwyddiadau unigol yn y theatr bob blwyddyn, gydag oddeutu 200,000 o bobl yn eu mynychu, a 50,000 o aelodau cymunedol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau allgymorth. Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf mae mwy na 500,000 o bobl wedi gweld cynhyrchiad gan Theatr Clwyd mewn mannau eraill yn y DU.

**Crynodeb o'r Swydd**

**RHEOLWR GWEITHREDIADAU A DATBLYGU BUSNES Y GWASANAETH CERDDORIAETH**
Yn gyfrifol am: Gweinyddwr y Gwasanaeth Cerddoriaeth
Yn atebol i'r: Cyfarwyddwr Cerddoriaeth

**RHEOLWR GWEITHREDIADAU A DATBLYGU BUSNES Y GWASANAETH CERDDORIAETH**

**Adran y Gwasanaeth Cerddoriaeth**

Mae'r Adran Gerddoriaeth yn Theatr Clwyd yn hwb ar gyfer cyflwyno cerddoriaeth yn y gymuned. Mae'r ffocws ar sicrhau mynediad at gerddoriaeth i bob person ifanc a rhoi cyfle iddynt ddysgu chwarae offeryn. Bydd yr adran yn adeiladu ar gryfder Gwasanaeth Cerddoriaeth Sir y Fflint, gan integreiddio ac adeiladu ar ragoriaeth nodedig ei waith hanesyddol. Gweledigaeth yr adran yw ceisio cyflwyno rhaglen waith sy'n ffrwyno pŵer cerddoriaeth i drawsnewid bywydau, a darparu dysgu creadigol ac ymgysylltu cymunedol. Ein nod ni yw cynnig y tiwtoriaid cerddoriaeth o'r safon uchaf bosib mewn lleoliadau addysgol a strwythurau llai ffurfiol, i holl aelodau'r gymuned leol eu mwynhau ac i wella iechyd a lles pobl. Hefyd cynnal a chyflawni cenhadaeth a gweledigaeth Theatr Clwyd.

**Pwrpas y Swydd**

Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth i redeg Gwasanaeth Cerddoriaeth Theatr Clwyd yn hwylus gan sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei weithredu'n effeithiol, cyfrannu at ddatblygu a chyflawni amcanion busnes allweddol a datblygu partneriaethau a chyfleoedd busnes newydd.

**Prif Gyfrifoldebau**

- Goruchwylio'r gwaith o weinyddu'r rhaglen
- Rheoli'r gwaith o redeg y Gwasanaeth Cerddoriaeth o ddydd i ddydd
- Rheolaeth ariannol ar y Gwasanaeth Cerddoriaeth
- Datblygu Busnes
- Rheoli Perthnasoedd Allanol a Phartneriaethau
- Cefnogi a chynorthwyo gyda datblygu, gweithredu a gwerthuso polisïau, prosesau a gweithdrefnau newydd a gwaddol

Goruchwylio'r gwaith o weinyddu'r rhaglen

- Goruchwylio bas data'r Gwasanaeth Cerddoriaeth ar gyfer gweinyddu gwersi offerynnol, a'i ddatblygu yn y dyfodol (SuperAdmin ar hyn o bryd)
- Cynorthwyo gydag ymholiadau perthnasol i wersi
- Bod yn bwynt cyswllt i holl Gysylltiadau'r Gwasanaeth Cerddoriaeth ynghylch materion amserlennu, a'r angen am aildrefnu/canslo unrhyw sesiynau, gan sicrhau bod yr holl bartïon sy'n cael eu heffeithio'n ymwybodol o'r newidiadau mor gyfym â phosib
- Rheoli pob agwedd ar Ensembles Cerddoriaeth a gweinyddu gwaith Cymunedol
- Rheoli pob agwedd ar weinyddu arholiadau'r Associated Board a Trinity
- Cefnogi trefniadau llywodraethu'r Gwasanaeth Cerddoriaeth. Bydd hyn yn cynnwys paratoi adroddiadau, cynllunio a data perfformiad ar gyfer partneriaid allweddol fel Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Celfyddydau Cymru ac aelodau'r Bwrdd

Rheolaeth ariannol ar y Gwasanaeth Cerddoriaeth

- Rheoli a monitro cyllideb y Gwasanaeth Cerddoriaeth
- Cysylltu â'r adran Gyllid ynghylch casglu ffioedd, boed yn uniongyrchol neu drwy ysgolion a rhanddeiliaid eraill

Rheoli'r gwaith o redeg y Gwasanaeth Cerddoriaeth o ddydd i ddydd

- Delio â cheisiadau am logi ystafelloedd
- Swyddog Iechyd a Diogelwch yr Ysgol Gerddoriaeth a Gwaith Cymunedol

Rheoli Perthnasoedd

- Creu perthnasoedd cadarnhaol a chadarn gyda phob ysgol. Ymweld yn rheolaidd â Rheolwyr Busnes / Penaethiaid / Ysgrifenyddion gan sicrhau bod unrhyw ymholiadau'n cael sylw prydlon

Datblygu Busnes

- Adnabod a mapio cryfderau busnes ac anghenion cwsmeriaid
- Ymchwilio i gyfleoedd busnes a ffrydiau incwm hyfyw
- Dilyn tueddiadau'r diwydiant yn lleol ac yn genedlaethol
- Ymwneud yn allanol â sectorau, diwydiannau a busnesau perthnasol
- Cefnogi Cysylltiadau'r Gwasanaeth Cerddoriaeth er mwyn meithrin eu hyder a'u sgiliau mewn ymgysylltu â busnesau
- Cynrychioli'r Gwasanaeth Cerddoriaeth yn allanol mewn digwyddiadau allweddol yn y rhanbarth a ledled y DU
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth i ddatblygu'r gwaith ehangach yn y gymuned

Cyfathrebu, Cyfrannu a Marchnata

- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Cyfathrebu a Chyfrannu i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei farchnata'n dda, yn cael sylw da am ei gyflawniadau ac yn gallu manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllido ar gyfer y dyfodol

Integreiddio Sefydliadol

- Cefnogi'r Cyfarwyddwr Cerddoriaeth i integreiddio'r adran yn llawn yn rhaglen ehangach Theatr Clwyd
- Gweithio'n agos gyda'r Tîm Ymgysylltu Creadigol, gan sicrhau bod yr amcanion a'r canlyniadau'n cyd-fynd os yw hynny'n bosib

**Manyleb y Person**

## Hanfodol

- Enw da am lwyddiant mewn rôl datblygu busnes, gyda gallu clir i adnabod, sefydlu a chynnal perthnasoedd
- Sgiliau cyfathrebu a chyflwyno rhagorol i gyrraedd amrywiaeth eang o bobl
- Profiad o reoli cyllidebau refeniw a gwariant o fwy na £0.75 miliwn
- Enw da am lwyddo i gyrraedd targedau ariannol a DPA eraill
- Profiad o reoli pobl
- Profiad o ddefnyddio a datblygu basau data
- Profiad o reoli prosiectau
- Profiad o arwain trafodaethau a dylanwadu ar benderfyniadau allweddol ar lefel uwch, gan gynnwys profiad clir o reoli newid
- Profiad o gyflwyno i uwch dimau rheoli, Byrddau, rhanddeiliaid allanol a chyllidwyr
- Profliad clir o ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid o ansawdd uchel
- Sgiliau rheoli amser a phersonol da gyda gallu i roi blaenoriaeth i faich gwaith mewn amgylchedd prysur, a than bwysau weithiau

- Sgiliau rhifedd cadarn
- Trwydded yrru lawn
- Archwiliad manwl gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

**Dymunol**

- Diddordeb brwd mewn cerddoriaeth ac yn y theatr a’r celfyddydau
- Profiad o ddatblygu busnes mewn cyd-destun addysgol neu hyfforddi
- Profiad Iechyd a Diogelwch
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig
- Defnyddiwr cyfryngau cymdeithasol ar gyfer marchnata proffesiynol